

Enghreifftiau o Amserlenni Ymweliadau i Daith Pyllau Glo Cymru

Er bod modd i ni ddarparu ar gyfer grwpiau o unrhyw faint, mae'r esiamplau isod yn seiliedig ar 60 o ddisgyblion yn cael eu goruchwylio gan 1 oedolyn am bob 10 plentyn fel rydyn ni'n ei argymhell.

Mae modd i ni deilwra eich ymweliad yn hollol i ddiwallu eich anghenion chi a'ch disgyblion. Mae modd i chi ddewis unrhyw rai o'r gweithgareddau isod, os hoffech chi arwain y gweithgareddau eich hunan neu os hoffech i ni arwain y gweithgaredd drosoch chi. Chi sy'n penderfynu.

| Amserlen A - Hanes a Gwyddoniaeth | | | |
|---|---|-------------------------------|-------------------------------|
| 9.30am | Cyrraedd | | |
| | Bydd un o'n Cynorthwywyr Amgueddfa cyfeillgar yn eich croesawu chi ac yn eich cyfeirio at Dŷ'r Wyntyll a gofyn i chi rannu'n grwpiau. | | |
| | Tŷ'r Wyntyll fydd eich canolfan am y diwrnod. Bydd eich tywysydd yn eich casglu chi o'r safle yma, bydd modd i chi wneud gweithgareddau yma, bwyta'ch cinio yma a gadael eich eiddo yma wrth archwilio'r safle. | | |
| | Grŵp A | Grŵp B | Grŵp C |
| 10am | Taith yr Aur Du | Diwrnod Mr Thomas | Gwyddonwyr Glo |
| 11am | Gwyddonwyr Glo | Taith yr Aur Du | Diwrnod Mr Thomas |
| 12pm | Cinio | | |
| | Bydd gyda chi awr i gael cinio. Yn ystod yr amser yma (os bydd y tywydd yn ddigon da) bydd cyfle i'ch disgyblion ddefnyddio'u hegni yn ein parc 'Parth Ynni'. | | |
| 1pm | Diwrnod Mr Thomas | Gwyddonwyr Glo | Taith yr Aur Du |
| 2pm | Amser rhydd: Cymerwch amser i archwilio ein hamgueddfa, gofynnwch i ni am ein taflenni gwaith am ddim ar gyfer orielau fel gweithgaredd bonws i'ch disgyblion a pheidiwch ag anghofio ymweld â'n siop anrhegion. | | |
| 2.30pm | Dychwelyd i'r ysgol | | |
| | Edrychwch ar ein blychau gwrthrychau er mwyn i'ch disgyblion dal i ddysgu yn yr ystafell ddosbarth. | | |
| COST Y DIWRNOD AR GYFER YSGOLION RHCT | Taith yr Aur Du - £270 (60 x £4.50 a 6 oedolyn am ddim) Gwyddonwyr Glo - £31.50 (£10.50 x 3 – dan arweiniad athro) / £120 (gyda thywysydd) Diwrnod Mr Thomas - £10.50 Cyfanswm - £312 / £400.50 | | |
| Amserlen A - Hanes, Celf a Dylunio | | | |
| 9.30am | Cyrraedd | | |
| | Grŵp A | Grŵp B | Grŵp C |
| 10am | Taith yr Aur Du | Gweithdy 'Craft of Hearts' | Tirluniau o Gymoedd y Rhondda |
| 11am | Tirluniau o Gymoedd y Rhondda | Taith yr Aur Du | Gweithdy 'Craft of Hearts' |
| 12pm | Cinio | | |
| 1pm | Gweithdy 'Craft of Hearts' | Tirluniau o Gymoedd y Rhondda | Taith yr Aur Du |
| 2pm | Amser rhydd | | |
| 2.30pm | Dychwelyd i'r ysgol | | |
| COST Y DIWRNOD AR GYFER YSGOLION RHCT | Taith yr Aur Du - £270 (60 x £4.50 a 6 oedolyn am ddim) Gweithdy 'Craft of Hearts' - £270 (60 x £4.50) Tirluniau o Gymoedd y Rhondda - £31.50 (£10.50 x 3 – dan arweiniad athro) / £120 (gyda thywysydd) Cyfanswm - £571.50 / £660 | | |
| Amserlen A - Hanes, Mathemateg a Llythrennedd | | | |
| 9.30am | Cyrraedd | | |
| | Grŵp A | Grŵp B | Grŵp C |
| 10am | Taith yr Aur Du | Symiau Simnai | Glo: O'r Rhondda i'r Titanic |
| 11am | Glo: O'r Rhondda i'r Titanic | Taith yr Aur Du | Symiau Simnai |
| 12pm | Cinio | | |
| 1pm | Symiau Simnai | Glo: O'r Rhondda i'r Titanic | Taith yr Aur Du |
| 2pm | Amser rhydd | | |
| 2.30pm | Dychwelyd i'r ysgol | | |
| COST Y DIWRNOD AR GYFER YSGOLION RHCT | Taith yr Aur Du - £270 (60 x £4.50 a 6 oedolyn am ddim) Symiau Simnai - £31.50 (£10.50 x 3 – dan arweiniad athro) / £120 (gyda thywysydd) Glo: O'r Rhondda i'r Titanic - £31.50 (£10.50 x 3) Cyfanswm - £333 / £421.50 | | |

Pecyn Gwybodaeth Cadw Lle Taith Pyllau Glo Cymru 2018/2019

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Cysylltiadau Cwricwlwm | Addas ar gyfer Cyfnod Allweddol | Hyd | Mewnbwngan yr Athro | Pris |
|-------------------------------------|---|---|---------------------------------|----------|---|--|
| Taith yr Aur Du | <p>Dilynwch hanes y glowyr a fu'n gweithio yng Nglofa Lewis Merthyr, yma yng nghanol Cwm Rhondda - 'Cartref y Glo'.</p> <p>Ewch ar daith gyda'n tywyswyr a oedd yn gweithio yn y pwll glo. Does neb yn gwybod mwy am y diwydiant glo na nhw!</p> <p>Mae ein Taith yr Aur Du yn eich arwain chi drwy Dai Weindio Trefor a Bertie, sydd newydd gael eu hadnewyddu, ac i mewn i'r ystafell lampau gwreiddiol er mwyn casglu'ch helmed ar gyfer eich taith danddaearol. Gallwch chi bron â chlywed adlais y glowyr ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod gwaith.</p> <p>Synnwch ar y Simnai hanesyddol, sy'n codi uwchben y safle, ynghyd â'r Olwyn Pen Pwll â'r Offer Weindio gwreiddiol. Ewch i ymweld â'r adeiladau o ddiwedd yr 1800au, Tŷ'r Wyntyll a'r ddau Dŷ Weindio.</p> | <ul style="list-style-type: none"> Hanes Dinasyddiaeth fyd-eang Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol | Pob oedran | 45 munud | Teithiau gyda thywysydd | <p>Prisiau Taith yr Aur Du: £4.50 am bob plentyn sy'n byw yn RhCT £5.40 am bob plentyn sy'n byw y tu allan i RCT 1 oedolyn am bob 10 plentyn - am ddim; £5.95 am bob oedolyn ychwanegol</p> <p>Dim mwy na 28 person ar bob taith</p> |
| Taith Gerdded ar Lwybr y Dramffordd | <p>Camwch i'r gorffennol a cherddwch ar hyd Tramffordd Richard Griffiths o Daith Pyllau Glo Cymru i Barry Sidings. Edrychwch ar sut mae daeareg y cymoedd a'r bobl oedd yn arfer byw yma wedi dylanwadu ar ein byd ni heddiw.</p> <p>Mae hyn yn weithgaredd amrywiol y mae modd ei addasu lle byddwch chi'n darganfod Llwybr y Dramffordd o 1809. Archwiliwch yr elfennau sy'n ffurfio ein tirwedd leol a chewch ddarganfod dolen i'r gorffennol.</p> | <ul style="list-style-type: none"> Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Datblygiad corfforol Datblygiad creadigol, hanes Dinasyddiaeth fyd-eang Gwyddoniaeth | Cyfnod Allweddol 2 | 1 awr | Mae pecyn adnoddau ar gyfer gweithgareddau o dan arweiniad yr athro ar gael neu mae modd trefnu ei fod yn weithgaredd gyda thywysydd am bris uwch. | <p>£10.50 x nifer o grwpiau</p> <p>£40 am bob taith gyda thywysydd</p> |
| Gwyddonwyr Glo | <p>Darganfyddwch wyddoniaeth glo a maes glo Cymru. Cyflwyno'r ffeithiau diddorol y tu ôl i ffurfio glo i'r disgyblion a rhoi cyfle iddyn nhw gymryd rhan yn y broses o arbrofi gwyddonol.</p> <p>Mae'r gweithgaredd yma'n datblygu dealltwriaeth o'r broses o ffurfio glo yng Nghwm Rhondda. Ymchwilio nodweddion glo a'i werth fel tanwydd yn y 19^{eg} ganrif a'r 20^{fed} ganrif. Darganfyddwch werth penodol glo a'r diwydiannau sy'n gysylltiedig ag ef.</p> | <ul style="list-style-type: none"> Gwyddoniaeth Hanes Datblygiad mathemategol Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Mathemateg Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol | Cyfnod Allweddol 2 | 1 awr | <p>Mae pecyn adnoddau ar gyfer gweithgareddau o dan arweiniad yr athro ar gael neu mae modd trefnu ei fod yn weithgaredd gyda thywysydd am bris uwch.</p> <p>Nodwch: Mae rhaid i athro fod yn bresennol ar y daith gerdded gyda thywysydd</p> | £10.50 x nifer o grwpiau |

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Cysylltiadau Cwricwlwm | Addas ar gyfer Cyfnod Allweddol | Hyd | Mewnbwn gan yr Athro | Pris |
|-------------------------------|--|--|---|----------|----------------------------------|--|
| Glo: O'r Rhondda i'r Titanic | Lluniwch stori fawr wedi'i hysbrydoli gan eich ymweliad. Bydd y stori'n cynnwys eich hoff wrthrychau yn yr oriel neu dychmygwch ddiwrnod ym mywyd glöwr. Gweithgaredd ymchwil hanesyddol yn seiliedig ar lythrennedd ar gyfer dadansoddi, trefnu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau. | <ul style="list-style-type: none"> Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Hanes Datblygiad creadigol Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol | Mae modd ei addasu: Dosbarth Derbyn - Cyfnod Allweddol 2 | 30 munud | Gweithgaredd dan arweiniad athro | £10.50 x nifer y grwpiau Neu gofynnwch i ni anfon hyn mewn e-bost atoch chi i'w argraffu yn yr ysgol am ddim. |
| Tirluniau o Gymoedd y Rhondda | Prosiect celf cydweithredol sy'n edrych ar wead a thonau gwaith celf gan arlunwyr o Gymoedd y Rhondda sydd yng nghasgliadau'r amgueddfa. Ymchwilio i rai artistiaid lleol gan edrych ar eu harddulliau, eu rôl a'u perthnasoedd gyda'r cwm. Defnyddiwch weadau o'ch amgylchedd i greu a dehongli tirwedd a chreu eich arddulliau celf eich hunain. | <ul style="list-style-type: none"> Celf a Dylunio Hanes Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Datblygiad creadigol | Cyfnod Allweddol 2/3 | 1 awr | Gweithgaredd dan arweiniad athro | £10.50 x nifer o grwpiau |
| Portreadau o Bobl Cwm Rhondda | Mae paentiadau neu ddarluniau yn gallu dweud rhywbeth wrthym ni am bobl, lleoedd a theimladau. Archwiliwch sut mae hyn yn cael ei wneud trwy ddewis lliwiau, cyfansoddiad a golau, a chreu hunan-bortread. Ymchwilio i rai artistiaid lleol a'u harddulliau. Ystyriwch beth sy'n gwneud portread a gwerthuswch pa elfennau fyddai'n bwysig mewn portread o'ch disgyblion. | <ul style="list-style-type: none"> Celf a Dylunio Hanes Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Datblygiad creadigol | Cyfnod Allweddol 2/3 | 45 munud | Gweithgaredd dan arweiniad athro | £10.50 x nifer o grwpiau |
| Diwrnod Golchi Mrs Thomas | Gweithgaredd llawn hwyl sy'n sicr o ddenu sylw'r plant. Bydd modd iddyn nhw weld sut y byddai eu hen fam-gu wedi golchi'r dillad. Mae'r gweithgaredd yma'n hybu ymchwiliad hanesyddol, trefniadaeth a chyfathrebu. Mae'n nodi gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw ar wahanol adegau a datblygiadau mewn technoleg. | <ul style="list-style-type: none"> Hanes Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Gwyddoniaeth Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Datblygiad corfforol Datblygiad creadigol Hanes Dinasyddiaeth fyd-eang | Cyfnod Sylfaen/Cyfnod Allweddol 2 | 45 munud | Gweithgaredd gyda thywysydd | £40 y grŵp |

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Cysylltiadau Cwricwlwm | Addas ar gyfer Cyfnod Allweddol | Hyd | Mewnbwn gan yr Athro | Pris |
|---------------------------------|--|---|---|----------|----------------------------------|--|
| Symiau Simnai | <p>Gwnewch astrolab a mesur uchder ein simnai. Dyma weithgaredd sy'n seiliedig ar rifedd a bydd y plant sy'n cymryd rhan yn dysgu sut i fesur adeilad tal gan ddefnyddio protractor ac ongl 45°.</p> <p>Mae'r gweithgaredd yma'n hybu datblygiad rhesymu rhifiadol, mesur rhif a sgiliau data. Mae'n annog hyder wrth feithrin cysylltiadau a chydweithio.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Mathemateg • Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • Datblygiad Mathemategol | Cyfnod Allweddol 2 | 45 munud | Gweithgaredd dan arweiniad athro | £10.50 x nifer o grwpiau |
| Gwneud Helmed Glöwr | <p>Mae'r gweithgaredd yma'n seiliedig ar grefft ac yn cynnwys defnyddio siapiau a chymesuredd. Ar ôl rhoi'r helmedau at ei gilydd, bydd y plant yn cael eu cadw nhw.</p> <p>Mae hwn yn gyfle dysgu gweithredol sy'n defnyddio ystod o siapiau 2D a rhesymu rhifiadol i adeiladu'r helmed.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Datblygiad creadigol • Celf a Dylunio • Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • Datblygiad Mathemategol | Cyfnod Sylfaen (gyda chymorth)/Cyfnod Allweddol 2 | 45 munud | Gweithgaredd dan arweiniad athro | £10.50 x nifer o grwpiau |
| Taflenni gwaith Oriol yr Aur Du | <p>Defnyddiwch ein taflenni gwaith sydd wedi cael eu paratoi ymlaen llaw i archwilio ein horiel.</p> <p>Atebwch gwestiynau am hanes lleol o 1880 hyd heddiw. Gall dysgwyr ddod o hyd i'r atebion i'r holl gwestiynau eu hunain trwy ddarllen y dehongliad yn oriel yr amgueddfa.</p> <p>Bydd y gweithgaredd yma'n hybu datblygiad ieithyddol a rhifiadol. Mae hefyd yn annog hyder wrth feithrin cysylltiadau i weithio a chwarae'n gydweithredol.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • Dinasyddiaeth fyd-eang • Hanes | Cyfnod Allweddol 2 | 30 munud | Gweithgaredd dan arweiniad athro | £10.50 x nifer y grwpiau Neu gofynnwch i ni anfon hyn mewn e-bost atoch chi i'w argraffu yn yr ysgol am ddim. |
| Gweithdy 'Craft of Hearts' | <p>Mae 'Craft of Hearts' yn ganolfan celf a chrefft yn Nhaith Pyllau Glo Cymru.</p> <p>Jo yw'r Artist preswyl yma ac mae hi'n cynnig gweithgareddau a gweithdai i blant ac oedolion.</p> <p>Mae hyn yn cynnig cyfle gwych i ysgolion ddefnyddio gwibdaith y dosbarth ar gyfer gwneud gweithgareddau traws-gwricwlaidd a rhoi rhywbeth i bob disgybl fynd adref gyda nhw.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Celf a Dylunio • Datblygiad creadigol | Pob oedran | 30 munud | Gweithgaredd gyda thywysydd | £4.50 y plentyn |

Blychau gwrthrychau

Mae modd i chi archebu'r blychau gwrthrychau i'w harchwilio yn yr amgueddfa, neu i'w defnyddio yn y dosbarth.

Gan ddefnyddio tystiolaeth gynradd ac eilaidd, mae ein blychau gwrthrychau'n helpu i greu darlun o sut fywyd gafodd pobl yn y gorffennol. Mae pob un o'r blychau yn dod gyda phecyn adnoddau i athrawon gyda gwybodaeth am bob gwrthrych yn y blwch a thaflen waith sydd wedi'i chynllunio i alluogi i'r disgyblion ddefnyddio'r gwrthrychau fel canolbwynt ar gyfer ymchwil a chwestiynau.

Cost

Defnydd ar y safle - £10.50 ar y safle a 5c y plentyn ar gyfer taflenni gwaith wedi'u hargraffu.

Defnydd oddi ar y safle - £10 yr wythnos neu £50 yr ½ tymor gydag opsiwn i'w ddsbarthu a'i gasglu am £20.

| Blychau Gwrthrychau | Disgrifiad | Cysylltiadau Cwricwlwm | Addas ar gyfer Cyfnod Allweddol |
|-----------------------|--|--|---|
| Diwrnod Mr Thomas | Roedd Mr Thomas yn gweithio ym Mhwll Bertie yn Nglofa Lewis Merthyr ym 1926. Mae'n gryf ac mae'n gweithio'n galed ond mae angen celfi ac offer diogelwch er mwyn gwneud ei waith fel glöwr. Defnyddiwch y gwrthrychau o'r gorffennol er mwyn creu darlun o fywyd Mr Thomas o dan y ddaear. | <ul style="list-style-type: none"> Gwyddoniaeth Hanes Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Dinasyddiaeth fyd-eang | Cyfnod Allweddol 2/3 ac mae modd ei addasu ar gyfer Cyfnod Allweddol 4. |
| Yr Ail Ryfel Byd | Mae'n cynnwys mwgwd nwy (copi), pecyn adnoddau am y blits, papurau newydd (copi), helmed Warden Cyrchoedd Awyr a phecyn dogni. | <ul style="list-style-type: none"> Hanes Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Dinasyddiaeth fyd-eang | Cyfnod Allweddol 2/3 ac mae modd ei addasu ar gyfer Cyfnod Allweddol 4. |
| Teganau Oes Fictoria | Golwg ar sut roedd plant yn chwarae yn y cyfnod cyn y rhyngryd. Mae'n cynnwys ceffyl pren, cylch a ffon, chwip a thop, 'diablo' a marblis. | <ul style="list-style-type: none"> Hanes Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Dinasyddiaeth fyd-eang | Cyfnod Allweddol 2/3 ac mae modd ei addasu ar gyfer Cyfnod Allweddol 4. |
| Cwrdd â'r Rhufeiniaid | Golwg ar fywyd yn Oes y Rhufeiniaid. Mae'n cynnwys arfwig, tlysau, offer coginio ac offer glendid personol. | <ul style="list-style-type: none"> Hanes Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Dinasyddiaeth fyd-eang | Cyfnod Allweddol 2/3 ac mae modd ei addasu ar gyfer Cyfnod Allweddol 4. |
| Cartref Oes Fictoria | Dysgwch am y gwahaniaethau rhwng dosbarthiadau cymdeithasol yn ystod Oes Fictoria a sut cafodd y rhain eu hadlewyrchu yn y cartref. | <ul style="list-style-type: none"> Hanes Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Dinasyddiaeth fyd-eang | Cyfnod Allweddol 2/3 ac mae modd ei addasu ar gyfer Cyfnod Allweddol 4. |
| Ysgol Oes Fictoria | Ail-greu'r ysgol o Oes Fictoria yn eich ystafell ddsbarth eich hun. Gwisgwch gap a gŵn yr ysgolfeistr a dilynwch y cynllun gwersi Fictoraidd. | <ul style="list-style-type: none"> Hanes Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd Dinasyddiaeth fyd-eang Mathemateg Datblygiad Mathemategol | Cyfnod Allweddol 2/3 ac mae modd ei addasu ar gyfer Cyfnod Allweddol 4. |